# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** **Trefor Lloyd Hughes** **Ward:** **Cybi**
**Grŵp:** **Plaid Cymru**

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Rwyf yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ac yn dal y Portffolio Addysg

| **Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | *** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)** |
|---|---|
| Apeliadau (mynychu ar sail rota) | 3 |
| Pwyllgor Archwilio (Is-Gadeirydd) | 3 (60%) |
| Cyngor | 7 (53%) |
| Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig | 1 (25%) |
| Pwyllgor Safonau | 4 (80%) |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu un cyfarfod)

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu Ysgol Uwchradd Caergybi

Llywodraethwr yn Ysgol Thomas Ellis – wedi mynychu cyfarfodydd

Wedi mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned Trearddur a Rhoscolyn

Wedi mynychu amryfal gyfarfodydd yn y Ward (Pobl Hŷn Millbank, Caeau Chwarae Treseifion ac ati)

Rwy'n delio gyda gwaith yn fy etholaeth, yn rhoi cyngor a chymorth personol a dros y ffôn neu trwy e-bost. Rwyf wedi cyfarfod ag etholwyr un ai yn fy nghartref neu yn y ward ac wedi delio gydag ystod o faterion.

Aelod o Gyngor Tref Caergybi a'r Bwrdd Claddedigaethau.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi delio gyda nifer o fentrau cymunedol a materion yn fy etholaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bûm o gymorth yn sefydlu Pwyllgor newydd i reoli'r cae chwarae yn Nhreseifion ac wedi cynorthwyo i sefydlu Pwyllgor Rheoli newydd ar gyfer Clybiau Pobl Hŷn Millbank. Rwyf wedi bod yn cydgysylltu gyda swyddogion y Cyngor i geisio denu grantiau ar gyfer y ddau. Fel yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg ar y Pwyllgor Gwaith cysgodol, rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod ynghylch y ddarpariaeth addysg yn y dref.

**Dysgu a Datblygu**

| **Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):** | |
|---|---|
| Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Cefnogaeth i Aelodau | Mai 2013 |
| Fframwaith Moesegol | Mai 2013 |
| Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol | Mehefin 2013 |
| Hyfforddiant Pwyllgor Trwyddedu | Gorffennaf 2013 |
| Cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio | Gorffennaf 2013 |
| Sgriwtineiddio Data Perfformiad | Gorffennaf 2013 |
| Seminar Cynllunio – Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Medi 2013 |
| Gwneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldebau | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Adolygiadau Datblygiad Personol | Hydref 2013 |
| Hyfforddiant PINS | Tachwedd 2013 |
| PRINCE2 – Hyfforddiant i Aelodau Byrddau | Rhagfyr 2013 |
| Cyflwyniad Cyffredinol i Faterion Cynllunio | Rhagfyr 2013 |
| Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio. | Ionawr 2014 |

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd llifogydd yn Nhrearddur. Gofynnais i staff ddelio gyda materion llifogydd yn yr ardal.

Rwyf hefyd wedi cydgysylltu gyda swyddogion y Cyngor i sicrhau gwelliannau i'r ffordd yn Millbank a Plas Road, Caergybi.

**Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes** **Ebrill 2014**